CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar 16.12.2024
yn Neuadd Cynwyl Elfed
Yn Bresennol: Cynghorydd Amy Evans (Cadairyddes), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Hefin Jones
Ymddiheuriadau: derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Eifion Jones.

61.Datgelu Buddianau Personol:
Dim.

52. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 18.11.2024
Tynodd y Cyng. JE sylw'r cyfarfod at cyf: 57(b): Lloches aros am bws Esgair yn dweud ei fod wedi adrodd am goeden peryglus yn tyfu dros y Lloches Aros Bws gyda'i changhenau yn cwympo arno. Ar ôl nodi'r cywiriad cytuniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.11.2024 yn gopi cywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Amy Evans.

63.Materion yn Codi o'r Cofnodion
a. Materion Priffyrdd: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
b. Cyfleusterau Cyhoeddus -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
c. Roedd y Cyng. Robin Bowen wedi son am pryderon lleol wrth y cyfarfod diwethaf ynghylch amseron aros am ambiwlans mewn argyfwng - clerc i edrych i mewn i sut gall y Cyngor Cymuned godi ei pryderon.
d. Ffynnon ar waelod y ffordd sy'n arwain i'r Ficerdy. y clerc i wneud ymholiadau.
e. Hysbyseb cyf-ethol Cynghorydd Lleol - Dywedodd y Cyng. Delme Phillips bod person o Blaen-y-Coed wedi dangos diddordeb iddo. Mae angen Cyng. ym Mryn Iwan. Mae lle i dri cyhorydd wedi'u hysbysebu.
f. Diffibriliwr Cwmduad - Mae'r Clerc wedi edrych maen i'r posibiliad o gael grant ac yn aros am wybodaeth oddi wrth y Cyng. Eifion Jones.
g. Dŵr Cymru - bil dŵr- wedi dyblu ers y bil diwethaf- DU £549.73 wedi'i dalu 31.10.24 -cynghorwyr i wirio'r mesurydd dŵr ar gyfer y Cyfleusterau Cyhoeddus.

64.Gohebiaeth.
Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.
Dywedodd y Cyng. Amy Evans ei bod wedi derbyn gwahoddiad i ymuno a chyfarfod cwarter ar lein gyda Heddlu Dyfed Powys ond nid oedd yn gallu mynychu, bydd y Cyng.Elfed Davies yn mynychu.

65.Cynllunio
Dim.

66.Taliadau a Chyllid
(a) Taliadau a Chyllid
- ME Davies, Cyflog y clerc 11/24 - £309.90
- M E Davies Cyflog y cler 12/24 - £310.10
- HMRC 1/4 3 - 5/1/25 - £232.40
- EDF Debyd Uniongyrchol - 01.11.24-30.11.24 - £ 47.49
- Un Llais Cymru - Hyfforddiant (anfoneb wedi'i gywiro) - £ 80.00
- Bryan Davies Treuliau cynhadleddau x2 Un Llais Cymru - £104.40
- ME Davies pecyn cymorth cyntaf a pecyn golchi llygaid
- ar gyfer y Cyfleusterau Cyhoeddus - £ 23.98

Penderfynodd y Cyngor gytuno i'r taliadau uchod gael eu gwneud.

Derbyniadau
- £750.22 gan gynwys TAW 5% - ad-daliad oddi wrth EDF energy wedi'i dderbyn 20.11.24

•

- TAW ad-daliad am y flwyddyn daeth i ben 31.3.24 = £1,094.23 ar 30.07.24 a £64.43 ar 08.11.24 Cyfanswm £1,158.56.

ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU -

Fe wnaeth Cynghorydd Amy Evans wirio'r derbyniadau a thaliadau hyd at 30 Tachwedd 2024 gan eu harwyddo er mwyn cadarnhau ei fod wedi gwneud hyn a'u bod yn ymddangos yn gywir.

67.Materion Priffyrdd:

Materion Priffyrdd adroddwyd ar 21.10.2024 ac 18.11.24 adroddwyd eto ar 16.12.24

a)Mae angen Llygaid Cathod ar y B4333 rhwng Cyffordd Maudsland a'r Black Lion- " "mae tîm rheoli traffig i gynnal assesiad risg."

b) Mae'r Cllr. Bryan Davies yn dilyn y mater Arwyddion Diogelwch Clir ar gyfer Cyffordd Penrhiwcrynfryn gyda'r Rheolwr Diogelwch Ffyrdd.

*c) C*1313-Ffordd y Ficerdy - Nid oedd y Cyngor yn bles gyda ymateb y Cyngor Sir bod y gordyfiant a gwyneb y ffordd yn llithrig ddim yn ddiffyg. Penderfynodd y Cyngor bwyso am gamau i'w cymryd ar y rhan hon o'r ffordd. *C*1313-Vicerage Road.

d) A484 Esgair Safle Aros Bws: Coed Ynn wedi marw yn tyfu tu ôl i'r lloches bws gyda'i changhenau yn cwympo a'r y lloches bws - Mae angen ei torri. Peryg.

e) B4299 - Mae angen llygaid cathod rhwng Bryn Moriah i Maudsland..ac ymlaen ar y B4333 o'r cyffordd i'r Black Lion- mater hirymaros sydd angen gweithredu.

f) B4333 -SA33 6SP : rhwng Gilfach y Gwnda a Ty Parc , y ffordd yn culhau ar y rhan hon o'r ffordd- nid oes unrhyw arwyddion mewn lle i rybuddio am hyn wrth ddod at y darn hon o'r ffordd.Penderfynodd y Cyngor holi am Arwyddion Rhybudd Clir ac hefyd am gyfarfod ar y safle.

Penderfynwyd adrodd eto ar y materion uchod gyda phwyslais ar bwysigrwydd gweithredu.

Materion Priffyrdd adroddwyd ar 16.12.2024

Penderfynodd y Cyngor anfon diolch i'r Cyngor Sir am yr holl waith yr oeddent wedi ei wneud yn yr ardal hon yn ddiweddar.

g) A484 - Nantyring-parc -palmant wedi'i lanhau gan gweithwyr y Cyngor Sir a welwyd yn taflu'r baw a malurion dros y ffens ac i fewn i'r parc chwarae.

h) Esgair man aros - ysbwriel a malurion adawyd gan weithwyr Cyngor Sir Gâr layby-rubbish and debris wedi'u gadael yn y man aros yn arwain at llifogydd yn ystod cyfnodau o law trwm.

i) Pont Esgair - craciau yn y bont - mae angen arolwg.

j) Pont Cwmduad - A484 - Gwyneb y ffordd mewn cyflwr gwael.

k) Rhiw Llethr Moel- angen ei lanhau.

68. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau— Pwyllgor Cyfleusterau Cyhoeddus Cynwyl Elfed.

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- - mae contract wedi'i lunio a'i gytuno gyda gweithiwr glanhau newydd, hunangyflogedig. Mae M Thomas wedi derbyn hyfforddiant "COSHH" a hyfforddiant gweithwyr newydd gan swyddog o Cyngor Sir Gâr, y clerc wedi mynychu hefyd). Mae wedi dechrau glanhau'r cyfleusterau cyhoeddus yn Cynwyl Elfed. Bydd i ffwrdd o 18 Rhagfyr hyd 28 Rhagfyr a bydd angen i'r Cyngor gwneud trefniadau glanhau gwirfoddol yn ystod ei absenoldeb.

69. Unrhyw Mater Arall

- Dywedodd y Cyng. Bryan Davies bod y gwaith a gytunwyd gyda Cyngor Sir Gâr yn dilyn y Cyfarfod Cyhoeddus ar 31 Mai 2022 ynghylch traffig yn goryrru drwy Cynwyl Elfed bron a dod i ben:-
-

- Mae'r Twmpath Tawelu Traffig wedi ei osod o flaen y neuadd, cyn cyrraedd yr ysgol.
- Bolardiau wrth ymyl y palmant ar cyffordd yr A484/B4333 yn eu lle.
- Mae'n bosib bydd gwaith gosod llinellau dwbl melyn ar y ddau dro dall yn y pentre, ar yr A484, drwy'r pentre yn cael ei wneud yn ystod Ionawr 2025.

70. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Nos Lun **20 Ionawr 2025**
19:30 hours.

Daeth y cyfarfod i ben 20.45 awr..

……
Cadeirydd.
……
Dyddiad.

•